LC1227

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

# Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau yma'n dirymu rheoliadau sy'n rhagnodi offerynnau ac erthyglau llywodraethu cychwynnol corfforaethau addysg bellach. Mae'r holl offerynnau ac erthyglau llywodraethu cychwynnol ar gyfer corfforaethau addysg bellach yng Nghymru'n cael eu disodli gan orchymyn o dan adran 22 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 23 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21)).

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Mae'r Rheoliadau yma'n defnyddio'r pwer sydd ymhlyg yn adran 14 o'r Ddeddf Ddehongli, sef bod unrhyw bwer i wneud rheoliadau yn cynnwys y pwer i'w diwygio neu i'w dirymu oni bai bod bwriad i'r gwrthwyneb i'w weld.

Mae mân bwyntiau fformadu wedi'u nodi hefyd i'w cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**14 Chwefror 2006**